# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

**(O Bell Trwy Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mercher, 5 Ionawr 2022** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.E.Freeguard** |
| **Cynghorwyr**: | N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh, C.James, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, L.M.Purcell, S.H.Reynolds, R.L.Taylor, A.N.Woolcock a/ac W.F.Griffiths |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones, F.Clay-Poole, A.James, N.Blackmore, J.Woodman-Ralph a/ac C.Plowman |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, M.Harvey, D.Jones, L.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac A.Wingrave |

---

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. M Harvey | Parthed: Mae'r Ymgynghoriad ar Gyllideb Ddrafft 2022/23 fel Atodiad 1 yn cyfeirio at deledu cylch cyfyng ac mae'n cael ei gyflogi gan Heddlu De Cymru. |

## 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 1 Medi 2021, 22 Medi 2021 a 17 Tachwedd 2021, yn amodol ar y sylwadau canlynol ar y cofnodion dyddiedig 1 Medi 2021:

Wrth graffu ar yr eitem agenda sy'n ymwneud â 'Rheoli Risgiau a Chyfrifoldebau mewn perthynas â Thomenni Glofeydd a Chwareli Segur o fewn yr awdurdod a rheoli Diogelwch Tomenni Glo yn y dyfodol', nododd yr aelodau bryder, er bod y cyfrifoldeb am gynnal a chadw Tomenni Glo o fewn perchnogaeth y Fwrdeistref Sirol a Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU oedd yn parhau i fanteisio ar y glo/mwynau.

## 3. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Cynllun Corfforaethol 2022-2027 - Adfer, Ailosod, Adnewyddu

Derbyniodd yr aelodau adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i ymgynghori ar Gynllun Corfforaethol diweddaredig ar gyfer y cyfnod 2022-2027.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr adroddiad yn cyfleu ymateb y cyngor i'r pandemig, ac yn nodi'r effeithiau ar gymunedau a'r economi leol; roedd yr effeithiau wedi newid cyd-destun y ffordd yr oedd angen i'r cyngor gynllunio wrth symud ymlaen. Nodwyd bod gan y cyngor ddyletswydd statudol i lunio'r cynlluniau hyn a bu'n rhaid iddo ystyried, fel rhan o'r gwaith hwn, a oedd yr amcanion lles blaenorol yn parhau'n briodol neu a oedd angen eu newid; daethpwyd i'r casgliad bod angen diwygio'r amcanion lles yng ngoleuni’r newid cyd-destun. Roedd rhan arall o'r gwaith hwn a amlygwyd yn cynnwys edrych ymlaen at nodi ffactorau amrywiol a fyddai'n cael effaith yn y dyfodol megis newid yn yr hinsawdd, setliadau ariannol a rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ei hun.

Nodwyd bod yr adroddiad a ddosbarthwyd hefyd yn crynhoi'r camau adfer cychwynnol yr oedd y cyngor wedi'u cymryd; roedd camau yn erbyn adferiad wedi mynd rhagddynt pan allent, gan ddibynnu ar sefyllfa'r pandemig. Un o’r darnau gwaith y dywedodd swyddogion eu bod wedi cwblhau oedd nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y cam nesaf, a oedd wedi'u rhannu'n bedwar amcan lles newydd:

1. Y dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a pherson ifanc;
2. Adeiladu cymunedau ffyniannus a chynaliadwy drwy ddefnyddio'r cryfderau a welwyd mewn cymunedau yn ystod y pandemig;
3. Rhoi blaenoriaeth uwch i'r gwaith a wneir sy’n ymwneud â’r amgylchedd, diwylliant a threftadaeth leol;

4. Adnewyddu a dwysáu gwaith er mwyn creu swyddi gwyrdd o ansawdd da yn yr ardal, a helpu pobl leol i ennill y sgiliau a'r hyder i ymgymryd â'r gyflogaeth honno.

Dywedodd swyddogion y bydd angen i raglen newid sefydliadol sylweddol o fewn y cyngor fod yn sail i’r holl waith hwn, wrth ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol, roedd swyddogion wedi cysylltu ag aelodau ynghylch y mathau o newidiadau i'r diwylliant a'r ffyrdd o weithio y bydd angen eu cyflwyno. Soniwyd bod bod yn un fel cyngor wrth wraidd y newid hwn, yn ystod y pandemig, roedd llawer o adrannau ar draws cyngor wedi dod at ei gilydd fel tîm, ac roedd seilos rhwng adrannau wedi'u dadansoddi. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai hyn yn rhan bwysig iawn o'r ffordd y mae'r cyngor yn symud yn ei flaen.

Nodwyd mai un elfen nad oedd wedi'i chwblhau eto oedd cyfrifo'r mesurau mewn perthynas â'r amcanion lles newydd; roedd rhywfaint o waith i'w gwblhau dros yr wythnosau nesaf i sicrhau y gallai'r cyngor ddangos y gwahaniaeth y bydd y rhain yn ei wneud. Tynnwyd sylw at y ffaith y bydd gan swyddogion ddiddordeb mewn unrhyw farn a allai fod gan y cyhoedd am y ffyrdd y gallai'r cyngor fesur llwyddiant fel rhan o'r ymgynghoriad. Hysbyswyd y pwyllgor y bydd cyfle i'r weinyddiaeth newydd gynnal adolygiad pellach o flaenoriaethau a pholisïau'r cynghorau ar ôl yr Etholiad, a fydd yn cael eu hadlewyrchu mewn Cynllun Corfforaethol diweddaredig a chynllun ariannol tymor canolig ar gyfer y cyfnod y tu hwnt i hynny.

Cyfeiriodd yr aelodau at ganlyniadau'r ymgyrch Dewch i Siarad, a dywedodd fod lefel yr ymatebion yn amrywio, yn enwedig yn ardaloedd y cymoedd; Gofynnwyd i swyddogion wneud sylwadau ar hyn. Rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd i'r aelodau fod yr ymdrech a roddwyd i'r ymgynghoriad ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol yn gyson. Nodwyd bod yr ymgynghoriad hwn yn dibynnu i raddau helaeth ar y dull electronig, digidol o ymgynghori oherwydd y pandemig, a oedd yn fwy na thebyg yn effeithio ar y gyfradd ymateb; oni bai am y ffaith bod ail a thrydedd don wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, byddai swyddogion wedi trefnu i fynd allan i'r gymuned a chyfarfod wyneb yn wyneb â chymunedau er mwyn cael rhagor o ymatebion. Amlygwyd bod llawer o waith wedi'i wneud i geisio casglu barn plant a phobl ifanc; cwblhawyd hyn yn bennaf drwy'r rhaglenni a oedd yn cael eu cynnal dros wyliau'r ysgol.

Hysbyswyd y pwyllgor, unwaith yr oedd yn amlwg bod nifer isel o ymatebion gan rai o gymunedau'r cymoedd, fod grwpiau ffocws

wedi'u trefnu i geisio cael gwybodaeth ansoddol er mwyn cael rhywfaint o ddealltwriaeth o rai o'r materion yn y cymunedau hynny; Cwblhawyd 30 o gyfweliadau manwl i sicrhau bod cynrychiolaeth yn cael ei derbyn ar draws ardaloedd y cymoedd, rhai fel grwpiau ffocws ac eraill fel cyfweliadau un i un. Ychwanegwyd bod y Prif Weithredwr hefyd wedi mynd allan i gymunedau'r cymoedd i siarad ag Aelodau Lleol; roedd y negeseuon a ddaeth yn ôl o'r ymweliadau hynny'n gyson â'r hyn a gasglwyd o adborth yr ymgynghoriad.

Cyfeiriwyd at flinder ymgynghori a oedd yn cael ei drafod yn fwy. Esboniodd y Swyddog Cyfathrebu Strategol fod yr ymgyrch Dewch i Siarad wedi ceisio dangos bod y cyngor yn gweithredu ac wedi gwrando ar yr hyn yr oedd unigolion wedi'i fynegi; bydd y gwaith hwn hefyd yn rhoi cyfle i'r unigolion hyn wneud sylwadau ynghylch a yw'r cynlluniau'n cyfleu'r pwyntiau perthnasol er mwyn cyflawni'r amcanion lles.

Y cwestiwn pwysig wrth symud ymlaen o'r ymgynghoriad hwn oedd pam y cafwyd mwy o ymatebion gan rai rhannau o'r Fwrdeistref Sirol nag eraill; bydd hwn yn waith parhaus i'r cyngor, a gellid gwella elfen yn y dyfodol gyda chymorth Cydlynwyr Ardaloedd Lleol, aelodau lleol a'r Timau Rheoli Cymdogaethau. Ychwanegwyd bod angen i swyddogion hefyd ystyried ffyrdd newydd ac ychwanegol o ymgysylltu er mwyn cael lefel fwy cyson ac uwch o gyfranogiad.

Dywedodd yr aelodau nad oedd llawer o'r materion a godwyd yn ymwneud yn uniongyrchol ag effeithiau neu adferiad COVID-19, ond eu bod yn dangos pryderon dwfn am wasanaethau a chyflwr trefi, pentrefi a chymunedau; gofynnwyd felly a fydd y cynllun adfer yn adlewyrchu'r angen tymor hwy am wasanaethau adfywio a gwasanaethau rheng flaen ar draws y Fwrdeistref Sirol. Esboniwyd bod yn rhaid adeiladu Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn unol â deddfwriaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; O ran bwriad hirdymor, mae un rhan o'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau edrych 30 mlynedd i'r dyfodol i geisio penderfynu sut y bydd y camau gweithredu a'r penderfyniadau a wneir heddiw yn effeithio ar genedlaethau'r dyfodol. Wrth lunio'r Cynllun Corfforaethol, ceisiodd swyddogion fod yn benodol iawn ar gyfer y 12 mis nesaf o waith; bydd hyn yn rhoi sicrwydd democrataidd i swyddogion ar gyfer yr hyn yr oedd angen ei gwblhau wrth symud o un weinyddiaeth i'r nesaf. Gan symud ymlaen o'r 12 mis nesaf, nodwyd bod swyddogion yn ceisio edrych ar yr hyn y gellid ei gyflawni o fewn cyfnod o bum mlynedd, wrth ei adael yn ddigon eang a hyblyg i weinyddiaeth newydd allu rhoi eu barn a'u mewnbynnau eu

hunain; ac eto yn yr un modd, gan edrych ymlaen at 20 mlynedd yn y dyfodol a gosod gweledigaeth o amgylch y pedwar amcan lles dros y cyfnod hwn. Ychwanegwyd y bwriedid defnyddio’r Cynllun Corfforaethol yn y dyfodol, y tu hwnt i'r pandemig, ac er mwyn edrych ar yr uchelgeisiau tymor hwy.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod llawer o'r elfennau o fewn y Cynllun Corfforaethol yn gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), a oedd yn agosáu at ddechrau'r broses o ymgynghori arno o ran ei adolygiad; Gofynnodd yr aelodau a ellid cael cysylltiad rhwng yr hyn a oedd yn ceisio'i gyflawni drwy'r Cynllun Corfforaethol diwygiedig a phroses y CDLl. Dywedodd y Prif Weithredwr y dylai'r CDLl gynrychioli’r hyn a oedd yn gynlluniau cyffredinol y cyngor ar gyfer ei gymuned; felly, wrth i adolygiad y CDLl gael ei ddatblygu, disgwylid y byddai'r amcanion newydd hyn y bydd y cyngor yn eu hystyried yn cael eu hadlewyrchu yn y broses honno. Nodwyd, wrth i'r CDLl ddatblygu, y gall fod rhywfaint o dystiolaeth newydd yn dod drwy'r broses, y gellid ei defnyddio i adlewyrchu Cynllun Corfforaethol diweddaredig; bydd y ddau gynllun dros gyfnod o amser yn parhau i gael eu diweddaru a'u hadlewyrchu er mwyn cadw i fyny â thystiolaeth a materion newydd wrth iddynt godi.

Yn dilyn hyn, dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio fod y cyngor ar bwynt tyngedfennol yn y broses o ddatblygu’i ddyheadau gofodol ar gyfer twf a diogelwch y Fwrdeistref Sirol; cynllun gofodol oedd y CDLl, ond roedd polisïau ar sail pynciau o fewn y cynllun hwnnw hefyd, ac roedd y cyngor ar fin cychwyn ar gyfnod o ymgynghori â'i gymunedau. Atgoffwyd yr aelodau i annog eu hetholwyr a'u sefydliad partner i ymgysylltu â chydweithwyr polisi cynllunio yn ystod yr ymarfer hwn; roedd yn bwysig eu bod yn gwneud hynny yn y cyfnod cynnar hwn, fel y gellid nodi materion sy'n effeithio ar eu cymunedau, ac yna gellir datblygu'r pwnc a'r polisïau gofodol i geisio mynd i'r afael â'r materion hynny. Hysbyswyd y pwyllgor fod y CDLl yn cael ei ddefnyddio o ddydd i ddydd i bennu dyheadau twf y cyngor a cheisiadau cynllunio a gyflwynwyd. Ailadroddwyd pwysigrwydd y CDLl, ac ychwanegwyd ei fod yn cyd-fynd â'r holl gynlluniau eraill yr oedd yn ofynnol i'r Awdurdod eu cyflawni.

Mynegwyd pryderon ynghylch ystadegyn a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod 84% o blant wedi mynd ddosbarthiadau meithrin heb y sgiliau llythrennedd, iaith a chyfathrebu priodol i gael mynediad at y cwricwlwm; byddai hyn yn awgrymu bod angen y mewnbwn penodol hwn ar fwyafrif mawr iawn

o deuluoedd a oedd â phlant ifanc. Tynnodd yr aelodau sylw at y ffaith bod yr ystadegyn hwn yn gysylltiedig â nifer o ddyheadau o'r amcan lles dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a pherson ifanc; ac yn seiliedig ar yr ystadegyn, gofynnwyd a oedd gan y cyngor y gallu i gyflawni'r dyheadau hynny.

Hysbyswyd y pwyllgor fod swydd Pennaeth y Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiad a Phartneriaeth wedi'i chreu'n ddiweddar er mwyn dwyn ynghyd yr adnoddau a'r partneriaid i geisio helpu ymhellach gyda'r maes gwaith hwn. Nid oedd yr ystadegyn a nodwyd yn yr adroddiad yn newydd i swyddogion, ond roedd ffordd wahanol o gyflwyno ffigurau wedi'i mabwysiadu. Sicrhawyd yr aelodau fod cynllun yn cael ei ddatblygu er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd sy'n peri pryder, a'i fod yn uchelgais gan y cyngor i weithio tuag at hyn er mwyn gwella. Nodwyd bod rhai plant yn mynd i mewn i'r system addysg gydag anawsterau amrywiol oherwydd cyfansoddiad economaidd-gymdeithasol Castell-nedd Port Talbot; roedd cryn dipyn o ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), a hefyd rhai nad oeddent wedi'u hadnabod.

Cadarnhaodd swyddogion eu bod wedi siarad am fanylion y cynllun i bartneriaid, a oedd yn fodlon ar y flaenoriaeth ynghylch y blynyddoedd cynnar; bydd hyn yn dwyn ynghyd yr arbenigwyr o fewn y trydydd sector, y bwrdd iechyd a phartneriaid eraill er mwyn sefydlu cynllun cydlynol. Amlygwyd y bydd y gwaith o amgylch hyn, gobeithio, yn gwella'r sefyllfa fel y byddant yn fwy parod i ddysgu pan fydd disgyblion yn ymuno â'r system addysg ac y byddant yn gwneud yr un cynnydd neu'n well, ac ar ddiwedd y system addysg byddant yn gadael gyda chanlyniadau gwell.

Cydnabu'r aelodau y cyfeiriwyd at y diffyg gwasanaethau bws sy'n effeithio ar allu preswylwyr i gael mynediad at weithgareddau cyflogaeth a hamdden ar wahanol adegau drwy gydol yr adroddiad a ddosbarthwyd. Manylir yn y Cynllun Corfforaethol fod uchelgais i ddatblygu cynllun i greu canolfannau trafnidiaeth newydd sy'n gwella'r cysylltiadau rhwng y mannau lle mae pobl yn byw a'r mannau lle mae pobl yn gweithio, yn dysgu ac yn mwynhau eu hamser hamdden; yn ogystal â datblygu cynlluniau trafnidiaeth yn y gymuned i gefnogi mynediad at waith. Gofynnwyd i swyddogion ymhelaethu ar y ddau gynnig hwn.

Amlygwyd bod llawer o lwybrau cludiant cyhoeddus a oedd yn cael eu darparu gan y sector preifat; pe na bai'r llwybrau cludiant cyhoeddus hynny'n gwneud elw, yna yn dilyn y gostyngiad mewn

cymorthdaliadau y byddai Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi iddynt, byddai'r darparwyr trafnidiaeth yn tynnu'r llwybrau hynny'n ôl. Ychwanegodd swyddogion mai ychydig iawn y gallai'r awdurdod ei wneud am hyn oni bai fod arian y cyngor yn cael ei ddefnyddio i roi cymhorthdal i'r llwybrau hynny, a byddai'n anodd penderfynu pa lwybrau y dylid canolbwyntio arnynt, o ran blaenoriaethu'r pecynnau ariannu cyfyngedig iawn. Eglurodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio fod y Cynllun yn canolbwyntio ar ac yn cynnwys cynigion posib yr oedd gan y cyngor ryw fath o reolaeth drostynt, a sut roedd angen i'r cyngor ymateb i'r ffordd yr oedd trafnidiaeth yn newid. Hysbyswyd y pwyllgor fod cludiant cymunedol yn dod yn bwysicach, yn enwedig yng nghymunedau'r cymoedd; roedd y cyngor yn cynnal ambell gynllun peilot a oedd yn weithredol o fewn y Fwrdeistref Sirol i geisio ehangu'r cyfle y mae cludiant cymunedol yn ei ddarparu yng nghymunedau'r cymoedd. Cadarnhawyd y bydd swyddogion yn adolygu pa mor effeithiol yw'r cynlluniau peilot hynny wrth symud ymlaen.

O ran uchelgais tymor hwy canolfannau trafnidiaeth, dywedwyd y gallai'r cyngor fod yn ceisio darparu canolbwynt gweithgarwch yn y dyfodol yng nghymunedau'r cymoedd; gallai hyn gynnwys elfennau amrywiol, megis gweithleoedd hybrid a chyfleusterau cymunedol yn y ganolfan i ganiatáu i bobl ddod at ei gilydd a rhannu profiadau, gwybodaeth a gweithgareddau cymdeithasol. Yn ychwanegol at hyn, nodwyd y gellid sefydlu cynlluniau rhannu ceir cludiant cymunedol o'r canolfannau cymunedol, er mwyn caniatáu i bobl gyrraedd gwaith a dychwelyd oddi yno, yn ogystal ag i weithgareddau manwerthu a hamdden ac oddi yno. Daeth swyddogion i'r casgliad y gallai'r gwahanol elfennau a nodir yn y cynllun amrywio'r cyfleoedd trafnidiaeth yn y Fwrdeistref Sirol, yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar y rhwydweithiau cludiant cyhoeddus a oedd wedi bod yn lleihau dros amser.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â nifer yr ymatebion i'r ymgyrch Dewch i Siarad. Er bod yr adborth yn yr ymatebion yn ddefnyddiol, mynegodd yr aelodau fod amrywiaeth eang o breswylwyr nad oeddent yn rhoi eu hadborth. Awgrymwyd y dylid cynnwys cafeat gyda'r data a'r wybodaeth o'r ymgynghoriad at ddibenion egluro. Cytunodd y Prif Weithredwr i ymchwilio i'r ffordd yr oedd yr adroddiad a ddosbarthwyd wedi'i eirio a sicrhau bod yr adroddiad yn gwneud hyn yn glir. Sicrhawyd yr aelodau ei bod yn arfer safonol cynnwys y mathau hyn o fanylion yn y dadansoddiad o ddata; Nid oedd swyddogion yn dibynnu ar setiau data ynysig, ac yn hytrach byddai'n

ceisio triongli'r data a fyddai'n cynnwys gwirio gydag Aelodau Etholedig, gan ddefnyddio data roedd swyddogion wedi'i gasglu eu hunain a fyddai'n bwydo i mewn i'r darlun cyffredinol, ac yn defnyddio'r adborth gan y cyhoedd.

Cyfeiriwyd at yr elfen 'ailosod perthnasoedd â'n preswylwyr' yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, a sut roedd y cyngor wedi crynhoi'r ffordd yr oedd yn bwriadu ailosod ac adnewyddu perthnasoedd â phreswylwyr. Holodd yr aelodau sut y byddai'r pwyntiau'n cael eu gwireddu, gan fynegi’r angen am adnoddau pellach er mwyn cyflawni'r dyheadau. Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen ystyried y canlynol yn fanylach yn y dyfodol; cael y pris gorau am werthiannau tir, gwneud cais am swm mwy o arian e.e. Cronfa Codi'r Gwastad, a gosod treth y cyngor a'i chadw mor isel â phosibl.

O ran tir, sicrhawyd yr aelodau fod y cyngor yn gwerthu tir sy'n eiddo i'r cyngor am bris gwerth y tir; gan ystyried pa gyfyngiadau oedd ar bob un o'i barseli tir. Ychwanegwyd, wrth werthu tir, fod swyddogion yn defnyddio cyngor annibynnol y prisiwr rhanbarthol i sicrhau nad oedd tir yn cael ei werthu islaw gwerth y farchnad.

Eglurodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio fod y prosbectws a'r alwad am geisiadau am Gronfa Codi'r Gwastad wedi'u cyhoeddi gydag amserlenni cyfyngedig iawn ar waith, ac roedd yn broses lem iawn o ran ymgynghori a chymeradwyo; Bu'n rhaid i swyddogion sicrhau cryn dipyn o wybodaeth er mwyn cyflwyno'r ceisiadau. Cadarnhawyd bod y cyngor wedi cyflwyno ceisiadau, fodd bynnag oherwydd materion cyfredol gydag adnoddau, nid oedd unrhyw brosiectau 'cwbl barod’ y gellid eu cyflwyno; cafodd hyn ei gyhoeddi ar y pryd. Hysbyswyd y pwyllgor fod swyddogion wedi cyfarfod â swyddogion y Llywodraeth mewn perthynas â Chronfa Codi'r Gwastad i geisio cael adborth, ac wedi gofyn yn benodol am fanylion ynghylch y ceisiadau a oedd yn llwyddiannus er mwyn dysgu ganddynt; yn anffodus, ni fydd swyddogion y DU yn rhannu gwybodaeth o'r ceisiadau llwyddiannus hynny. Roedd swyddogion yn ymwybodol bod ail gyfran o'r cyllid hwn yn cael ei rhyddhau yn y gwanwyn, ac roedd y timau wedi dechrau edrych ar brosiectau; derbyniwyd arian ychwanegol (£200,000) er mwyn adeiladu ar y niferoedd o fewn y timau, ond byddai'n cymryd peth amser i ddod o hyd i bobl sy'n addas ar gyfer y swydd a'u hyfforddi i safon lle'r oeddent yn gallu cyflawni prosiectau. Nodwyd y bydd yr arian ychwanegol yn helpu i adeiladu tîm a oedd yn addas i'r diben yn y dyfodol, ac yn gynaliadwy wrth symud ymlaen; a fydd hefyd yn

manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i sicrhau canlyniadau llwyddiannus ar gyfer unrhyw gyfleoedd ariannu.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r amcan lles newydd 'y dechrau gorau mewn bywyd', a'r cysylltiadau â'r rhaglen Dechrau'n Deg. Holodd yr aelodau ynghylch gwerth am arian y rhaglen hon, yn seiliedig ar yr ystadegyn pryderus a amlygwyd yn gynharach yn y cyfarfod. Nid oedd swyddogion yn ymwybodol o unrhyw astudiaethau gwerth am arian i'r rhaglen Dechrau'n Deg ledled Cymru; fodd bynnag, roedd yr ysgolion a dderbyniodd blant o'r rhaglen Dechrau'n Deg yn ei chanmol yn fawr, o ran y gefnogaeth yr oedd y bobl ifanc a'u teuluoedd yn ei chael. Dywedwyd nad oedd pob plentyn yr oedd angen cefnogaeth arno'n byw yn nalgylchoedd Dechrau'n Deg, ac nid oedd angen cefnogaeth ar bob plentyn a oedd yn byw yn nalgylchoedd Dechrau'n Deg; mewn trafodaethau ynghylch 'y dechrau gorau mewn bywyd', adroddwyd bod rhai teuluoedd mewn gwirionedd yn cael gormod o gefnogaeth ac ar yr ochr arall roedd teuluoedd yr oedd angen y gefnogaeth honno arnynt. Soniodd swyddogion mai rhan o'r cynllunio strategol y cyfeiriwyd ato mewn trafodaethau cynharach, oedd sicrhau bod partneriaid yn dod at ei gilydd i helpu'r rheini yr oedd angen cefnogaeth arnynt, waeth a oeddent yn byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ai peidio, ac i sicrhau bod y rheini yr oedd angen cefnogaeth arnynt yn gwybod sut i ddod o hyd iddi; un o'r materion a nodwyd oedd bod llawer o rwydweithiau cefnogi rhwng gwahanol sectorau, ond nid oedd llwybrau clir o ran cael gafael arno.

Yn dilyn y drafodaeth uchod, pwysleisiwyd yr angen i addysgu a helpu'r uned deuluol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y blynyddoedd o gyni wedi effeithio'n sylweddol ar swyddogaeth y blynyddoedd cynnar; roedd cysylltiadau da iawn yn arfer bod rhwng partneriaid a oedd yn helpu plant a'u teuluoedd. Ailadroddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes y pwyntiau yr oedd yr aelodau wedi'u gwneud; ym mron pob achos, y ffordd orau o ddiwallu anghenion plentyn oedd pan oedd yr uned deuluol yn deall y gwaith ac yn cefnogi'r plentyn. Ychwanegwyd mai un o'r rhesymau dros sefydlu swydd newydd Pennaeth y Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiad a Phartneriaeth, oedd sicrhau bod cynlluniau strategol ar waith a bod yr adnoddau a oedd ar gael yn cael eu defnyddio i sicrhau'r effaith orau.

Gofynnwyd a oedd ffordd benodol o gyflawni rhai o'r dyheadau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol, er mwyn symud ymlaen gyda'u cyflawni; cyfeiriwyd hefyd at yr anawsterau presennol o ran recriwtio

a sut y gallai hyn gael effaith ar gyflawni'r dyheadau. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod swyddogion wedi blaenoriaethu'r canlynol o fewn y cynllun; y pedair blaenoriaeth les yw'r prif ffocws wrth symud ymlaen. Nodwyd bod y cynllun a ddosbarthwyd yn cynnwys nifer o bwyntiau bwled a oedd yn nodi'r meysydd gwaith y credai swyddogion y gellid eu datblygu yn ystod y 12 mis cyntaf.

O ran perfformiad, nodwyd bod dulliau eraill ar waith i ddangos lle'r oedd y cyngor yn perfformio'n dda, lle'r oedd yn gwneud yn weddol a lle'r oedd yn ei chael hi'n anodd; daw'r rhain drwodd yn yr adroddiadau monitro perfformiad a'r adroddiad blynyddol, a bydd swyddogion yn ystyried sut roedd y cyngor yn perfformio wrth ddiweddaru'r cynlluniau. Ychwanegwyd pe bai'r cyngor yn methu mewn ardal benodol, y byddai cyfle i gynnwys hyn yn y cynllun yn y cyfnod nesaf; ac yna bydd angen i swyddogion nodi adnoddau i gyflawni'r gwaith.

Hysbyswyd y pwyllgor fod rhai o'r meysydd gwaith yn amcanion tymor hir na fydd yn cael eu cwblhau o fewn y tair blynedd gyntaf; dyma'r prosiectau y bydd swyddogion yn gweithio tuag atynt dros yr 20 mlynedd nesaf. Tynnwyd sylw at y ffaith y bydd darn pwysig o waith i'w wneud er mwyn pennu'r gwahaniaeth y mae'r cyngor yn ei wneud a'r sefyllfa yr oedd y cyngor ynddi, o ran dilyniant.

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y ffaith nad oedd y Cynllun Corfforaethol wedi cynnwys y mesurau eto; erbyn i'r adroddiad gael ei ddwyn yn ôl i'r pwyllgor, bydd mesur sylfaenol yn cael ei gynnwys. Nodwyd bod gan bwyllgorau craffu rôl bwysig i'w chwarae yn hyn o beth; bydd cyfle yn y weinyddiaeth nesaf i edrych ar sut roedd y cyngor a'i bartneriaid, gyda'i gilydd, yn cael effaith ar y meysydd pwysig hyn.

Cododd yr aelodau nad oedd cymunedau'n gwella o'r pandemig yn unig, ond o flynyddoedd o gyni cyn hynny. Dywedwyd y dylid adlewyrchu hyn yn y Cynllun Corfforaethol.

Cynigiwyd ac eiliwyd y diwygiad ffurfiol canlynol i'r argymhelliad a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd:

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, argymhellir bod y Cabinet yn cymeradwyo Cynllun Corfforaethol drafft 2022-2027 ac yn cyhoeddi'r Rhaglen Newid Strategol (a gynhwysir yn yr atodiad) am gyfnod ymgynghori o 4 wythnos (5 Ionawr 2022 – 1 Chwefror 2022.) ar yr amod bod y cynllun yn gynnwys cyfeiriad at effeithiau'r blynyddoedd o gyni a'r pandemig.

Penderfynwyd bod y pwyllgor o blaid y gwelliant i'w ystyried gan y Cabinet.

Ymgynghoriad ar Gyllideb Ddrafft 2022-23

Derbyniodd y pwyllgor adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ymgynghori ar gynigion cyllidebol drafft ar gyfer 2022/23.

Hysbysodd y Prif Weithredwr yr aelodau o'r broses graffu eleni ar gyfer yr ymgynghoriad ar y gyllideb. Nodwyd y byddai'r adroddiad hwn, fel arfer, yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Craffu'r Cabinet a'r Cabinet, cyn ei gyflwyno wedyn i bob pwyllgor craffu unigol, fel y gallai aelodau craffu graffu ar gynigion y gyllideb mewn perthynas â'u portffolio; roedd hyn yn arbennig o bwysig pan gynigiwyd naill ai cynyddu incwm newydd, gwneud toriadau mewn costau neu wneud toriadau i wasanaethau. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y ffaith bod y gyllideb yn wahanol iawn eleni gan nad oedd unrhyw doriadau arfaethedig i wasanaethau; oherwydd y rheswm hwn, nid oedd swyddogion yn bwriadu cyflwyno adroddiad y gyllideb i bob pwyllgor craffu, oni bai fod aelodau craffu’n gofyn am wneud hyn.

Darparwyd trosolwg o'r cynigion yn yr adroddiad a ddosbarthwyd i'r pwyllgor; gofynnir am benderfyniadau terfynol ar y gyllideb yn y cyfarfod ar 28 Chwefror 2022, ar ôl cael adborth o'r broses ymgynghori.

Cyfeiriwyd at y gyllideb bresennol ar gyfer 2021/22, sef £316.246m; Ariannwyd 75% o hyn gan Lywodraeth Cymru, a 25% o gasgliad Treth y Cyngor. Rhoddodd yr adroddiad fanylion ynghylch sut roedd yr arian hwnnw'n cael ei wario.

O ran y setliad Llywodraeth Leol ar gyfer y flwyddyn nesaf; ar 21 Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynnydd o 9.4% yn y cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru, sef cyfanswm o £437m. Nodwyd bod cyfran Cynghorau Castell-nedd Port Talbot (CNPT) o hyn yn £20.78m, a oedd yn cyfateb i 8.8%. Soniodd swyddogion fod y cyngor fel arfer yn agos at frig system raddio Llywodraeth Cymru, ond y tro hwn roedd NPT yn y 18fed safle o’r 22 Awdurdod yng Nghymru; y rheswm am hyn oedd er gwaethaf y ffaith bod nifer y disgyblion sy’n derbyn prydau ysgol am ddim a hawlwyr budd-daliadau yn y Fwrdeistref Sirol wedi cynyddu, roedd y lefelau wedi cynyddu ar gyfradd lai na'r mwyafrif llethol o gynghorau eraill yng Nghymru, a olygai fod CNPT wedi cael cyllid a oedd yn llai yn ôl cyfran

Tynnodd swyddogion sylw at faint o arian oedd ar gael ar gyfer y flwyddyn nesaf; Bydd Treth y Cyngor ar y lefelau presennol, a chyllid Llywodraeth Cymru o £258m, yn rhoi £338m i'r cyngor ei wario. Rhoddwyd gwybodaeth i'r aelodau am yr hyn yr oedd angen ei wario'r flwyddyn nesaf; sefyllfa'r gyllideb eleni oedd £319m, a byddai costau gwasanaeth anochel yn ychwanegol at hyn sef chwyddiant, yr ardoll gofal cymdeithasol, a'r cynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol, a fyddai'n cynyddu costau £8.7m. Roedd atodiad un o'r adroddiad a ddosbarthwyd hefyd yn manylu ar y pwysau ar wasanaethau a nodwyd, a fyddai'n darparu costau o £8.7m. Roedd swyddogion yn cynnig y dylid lleihau'r gyllideb wrth gefn £965m, a oedd yn darparu swm heb ei neilltuo o £2.2m; awgrymwyd y dylid cadw'r £2.2m i gydbwyso unrhyw amrywiadau yng nghyfnod strategaeth ariannol y tymor canolig. Ychwanegwyd, o ganlyniad i'r setliad hwnnw, nad oedd bwriad i gynyddu lefelau Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf; Roedd swyddogion yn ceisio ymgynghori ar godi Treth y Cyngor 0%.

O ran y strategaeth ariannol tymor canolig, dywedwyd bod setliad Llywodraeth Cymru'n cynnwys dyraniadau dangosol o 3.5% ar gyfer 2023/24, a 2.4% ar gyfer y flwyddyn ganlynol; un o'r rhesymau dros gynnig cadw £2.2m o gyllid eleni (fel y nodir uchod) oedd lliniaru effaith y setliadau is hynny yn y flwyddyn ganlynol.

Roedd polisi ynghylch cronfeydd wrth gefn cyffredinol wedi’i gynnwys yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Nodwyd bod gan y cyngor setliad o 8.8%, er ei fod wedi mynd drwy flynyddoedd o gyni; roedd hyn yn caniatáu i swyddogion allu pennu’r strategaeth mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn cyffredinol oherwydd sefyllfa ariannol iachach. Hysbyswyd yr aelodau nad oedd isafswm neu uchafswm rhagnodedig o gronfeydd wrth gefn, a mater i'r Prif Swyddog Cyllid oedd gwneud argymhellion i'r aelodau ar y lefelau hyn. Roedd swyddogion yn bwriadu gweithio tuag at lefel gyffredinol y gronfa wrth gefn o 4%, a fyddai tua £13.5m, yn ogystal â cheisio lleihau balans presennol y gronfa wrth gefn dros gyfnod y strategaeth ariannol tymor canolig, a chefnogi buddsoddiad a all ostwng costau refeniw neu gynhyrchu incwm.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r buddsoddiadau untro i gefnogi’r adferiad o COVID-19. Roedd swyddogion yn bwriadu buddsoddi rhai o'r cronfeydd wrth gefn penodol i gyflawni mesurau tymor byr penodol, a fydd yn helpu i ddechrau cyflawni'r Cynllun Corfforaethol; £700,000 tuag at yr amcan dechrau gorau mewn bywyd, £1.2m ar gyfer yr amcan cymunedau ffyniannus a chynaliadwy, a £200,000 i'r

amcan treftadaeth a diwylliant. Roedd swyddogion yn bwriadu defnyddio'r £2.8m o'r gronfa yswiriant i ariannu hyn, a fyddai'n gadael £700,000 heb ei neilltuo; roedd yn bwysig nodi y byddai darparu prosiectau unigol yn amodol ar gymeradwyaeth Byrddau Cabinet unigol.

Un o'r argymhellion yn yr adroddiad a ddosbarthwyd oedd ailbwrpasu'r gronfa Ymddeoliad Cynnar/Colli Swydd yn Wirfoddol bresennol i gronfa datblygu sefydliadol. Nodwyd bod hyn yn cael ei gynnig er mwyn helpu i fuddsoddi yng ngweithlu'r cyngor; roedd yr adroddiad yn manylu ar y mathau o fentrau a fyddai'n cael eu cyflwyno dros gyfnod o dair blynedd, a byddai angen £1.5m o'r gronfa hon i'w hariannu.

Awgrymodd yr adroddiad a ddosbarthwyd y bydd cyllid dangosol yn 2023/24 a 2024/25 ar lefelau is ar 3.5% a 2.4% yn eu trefn; Gofynnodd yr aelodau a oeddent am gymharu'r rhain â'r 8.8% ar gyfer 2022/23. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid fod y datganiad hwn yn gywir.

Cyfeiriodd yr aelodau at lefel y cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2021, sef tua £20m; gofynnwyd beth oedd lefel y cronfeydd wrth gefn a ragwelir ar gyfer 31 Mawrth 2022. Cadarnhawyd bod disgwyl unwaith eto i lefel y cronfeydd wrth gefn fod tua £20m.

Holwyd dros ba gyfnod o amser y byddai'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu lleihau'n raddol i 4%. Nodwyd y byddai'r gostyngiad cynyddrannol yn cael ei gyflawni dros gyfnod y strategaeth ariannol tymor canolig newydd, sef cyfnod 2022/23 i 2026/27.

Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch y buddsoddiadau untro i gefnogi’r adferiad o COVID-19. Tynnodd yr aelodau sylw at y ffaith y daw'r cyllid o hyn o ailbwrpasu'r gronfa yswiriant bresennol (£2.8m), felly ni fydd angen defnyddio'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i gefnogi'r mentrau hyn. Dywedodd yr aelodau y gallai fod cyfle i leihau Treth y Cyngor 1%, gan ddefnyddio rhai o'r cronfeydd wrth gefn i'w ariannu; holwyd a ellid gwneud hyn. Hysbyswyd y pwyllgor fod gan y Prif Swyddog Cyllid ddyletswydd statudol i ofalu am les pennaf talwyr Treth y Cyngor presennol ac yn y dyfodol; roedd y cyngor a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd wedi'i lunio o amgylch y cyfrifoldebau statudol hynny. Fel y soniwyd eisoes, nid oedd disgwyl i'r setliad ar gyfer y ddwy flynedd nesaf fod yn sylweddol ac nid oedd effaith barhaus y pandemig yn hysbys; roedd Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru hefyd yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth 2022, a'r llynedd hawliodd y cyngor £24m yn ôl o'r gronfa honno.

Ychwanegwyd bod y Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi cynnwys pwysau cyllidebol o £2.5m ynddi; Nid oedd swyddogion yn cynnig gostyngiad o 1% yn Nhreth y Cyngor oherwydd y rhesymau hyn.

Pwysleisiwyd nad oedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn darparu gwybodaeth am strwythur gwirioneddol y gyllideb na'r gwariant adrannol arfaethedig; roedd angen cael trafodaethau pellach ar yr hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud i flaenoriaethu gwariant y cyngor. Dywedodd yr aelodau y dylai Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu ystyried cynnal y cyfarfodydd craffu cyllideb unigol arferol.

O ran yr ymgynghoriad, holwyd pe bai'r adborth yn dangos bod nifer sylweddol o drigolion yn gofyn am ostyngiad yn Nhreth y Cyngor, sut y byddai swyddogion yn ystyried ac yn rheoli hyn; yn dilyn trafodaethau cynharach a oedd wedi digwydd o ran y mater hwn. Dywedwyd pan fydd y gyllideb yn cael ei chyflwyno ar gyfer ymgynghoriad, y bydd pobl yn debygol o fod eisiau gostyngiad yn Nhreth y Cyngor; cydnabuwyd mai CNPT oedd â’r dreth gyngor band D drydedd uchaf yng Nghymru. Fodd bynnag, nodwyd bod 80% o drigolion CNPT yn talu llai na band D; dangosodd arolwg diweddar mai swm cyfartalog Treth y Cyngor a dalwyd yn CNPT oedd yr 16eg isaf yng Nghymru. Amlygodd y Prif Swyddog Cyllid fod cymariaethau’n cael eu cwblhau ar gyfartaledd pan roeddent yn cael eu cymharu'n ystyrlon. Hysbyswyd yr aelodau y bydd swyddogion yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac os oedd pwysau sylweddol, bydd angen iddynt ystyried beth fyddai'n fforddiadwy a gwneud argymhellion ynghylch sut y byddai'n cael ei ariannu; bydd hyn yn golygu gostyngiadau mewn gwasanaethau a thoriadau. Ychwanegwyd y bydd lleihau Treth y Cyngor ar hyn o bryd hefyd yn rhoi baich ar y weinyddiaeth newydd.

Cynhaliwyd trafodaeth mewn perthynas â materion recriwtio cyfredol y cyngor. Tynnwyd sylw at y ffaith bod swyddogion wrthi'n cyflwyno tasglu recriwtio i geisio ymdrin â'r ffaith bod nifer o swyddi gwag yr oedd angen eu llenwi; roedd staff yn gweithio'n galed i sicrhau bod y swyddi gwag hynny'n cael eu llenwi a gallai gwasanaethau'r cyngor barhau.

Cyfeiriwyd at ganran y gyllideb bresennol a glustnodwyd i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai (28%) a Chyfarwyddiaeth yr Amgylchedd (13%). Mynegodd yr aelodau pe bai'r cyngor mewn sefyllfa i wneud buddsoddiadau yn y meysydd hyn a gwella rhai agweddau, y byddai'r cyhoedd yn ei werthfawrogi'n fawr; yn dilyn sylwadau'r aelodau, gofynnwyd a oedd y canrannau

wedi'u clustnodi neu a ellid eu haildrefnu. Nodwyd bod y ffigurau wedi'u clustnodi, sef y gyllideb bresennol ar gyfer y gwasanaethau hynny; yn ystod y gwanwyn, bydd swyddogion yn edrych ar y strategaeth ariannol tymor canolig newydd a fydd yn ystyried ailseilio'r cyllidebau presennol, cysylltu â'r Cynllun Corfforaethol a cheisio sicrhau bod adnoddau'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodwyd. Daethpwyd i'r casgliad bod posibilrwydd o aildrefnu, ond roedd angen ei alinio â'r blaenoriaethau a bennwyd gan y Cabinet.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

**CADEIRYDD**